

## Modiwl Modelau Busnes Masnachol

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban (CARES) gan Local Energy Scotland a Ricardo Energy & Environment.

### Strwythur y Modiwl

Mae nifer gynyddol o wahanol ffyrdd y gellir strwythuro prosiectau ynni adnewyddadwy, yn enwedig prosiectau cymunedol bach, yn fasnachol a'u cynllunio'n dechnegol er mwyn sicrhau eu bod yn hyfyw yn ariannol. O ystyried y newidiadau i gymhellion ariannol a gefnogwyd gan y Llywodraeth, mae angen cynyddu arloesedd yn y sector er mwyn sicrhau'r refeniw uchaf posibl i brosiectau.

Yn ogystal, mae ardaloedd helaeth o'r seilwaith grid sy'n gyfyngedig, gan gynyddu cost cysylltu i dechnoleg adnewyddadwy a lleihau faint o drydan y gellir ei allforio i'r grid i'w werthu i gyflenwyr trydan.

Mae'r modiwl hwn yn cynnig canllawiau ar wahanol fodolau busnes a allai alluogi prosiect i greu cysylltiad grid rhwng y cynhyrchedd a'r defnyddiwr, sicrhau refeniw ychwanegol drwy werthu trydan a darparu'r budd gorau posibl i'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am wahanol drefniadau masnachol ar gyfer gwerthu'r ynni a gynhyrchir, er enghraifft, drwy Gytundeb Prynu Ynni traddodiadol gyda chyflenwr trydan neu'r dull mwy arloesol o werthu'n uniongyrchol i gymunedau drwy gytundeb Label Gwyn gyda chyflenwr.

Rhennir y modiwl hwn yn adrannau fel a ganlyn:

- 1. Cefndir: model busnes ynni adnewyddadwy nodweddiadol**
- 2. Trefniadau masnachol amgen**
  - i. Label Gwyn;
  - ii. 'Licence Lite';
  - iii. Cyflenwr o dan Eithriad Trwydded.
- 3. Rhagor o Wybodaeth**

## Cefndir: model busnes ynni adnewyddadwy nodweddiadol

Mae dwy system gysylltiedig yn rhan o'r broses cyflenwi trydan: trosglwyddo a dosbarthu.


Mae'r broses o drosglwyddo trydan yn cludo trydan dros bellterau hir ledled y wlad ar foltedd uchel er mwyn lleihau colledion. Mae'r rhwydwaith trosglwyddo yn cynnwys rhwydwaith ar 400kV, 275kV a 132kV ac mae Perchenogion Trosglwyddo yn berchen arno ac yn ei weithredu.

Mae'r broses o ddosbarthu trydan yn mynd â phŵer o'r rhwydwaith trosglwyddo ac yn ei ddosbarthu i ddefnyddwyr. Caiff y foltedd ei leihau i'r foltedd cyflenwi cywir ar gyfer y llwythi. Yng Nghymru, mae'r rhwydweithiau hyn yn gweithredu ar 132kV ac yn is. Cyflenwir y rhan fwyaf o gwsmeriaid preswyl ar 230V. Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu (DNO) trwyddedig sy'n berchen ar y rhwydweithiau hyn ac yn eu gweithredu ac mae pob un ohonynt yn gyfrifol am y rhwydwaith o fewn ardal ddaearyddol.

Mewn system ynni draddodiadol, mae gorsafoedd pŵer mawr yn bwydo i'r rhwydwaith trosglwyddo, ac wedyn caiff y trydan ei gludo i'r rhwydweithiau dosbarthu. Mae'r rhwydweithiau dosbarthu yn cludo'r trydan i lwythi, megis cartrefi a busnesau. Gelwir y rhwydweithiau trosglwyddo a dosbarthu hefyd yn systemau trosglwyddo a dosbarthu.

Mae unrhyw gymuned sy'n ystyried gosod cynllun ynni adnewyddadwy yn debygol o gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu, yn hytrach na'r rhwydwaith trosglwyddo. Felly, Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu fydd y prif bwynt cyswllt o ran cysylltu. Yn Ffigur 1, caiff y broses gynhyrchu ei chysylltu â rhwydwaith Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu drwy ehangu'r rhwydwaith, ac mae angen atgyfnerthu'r is-orsaf leol hefyd (er enghraifft, drwy osod newidydd mwy). Noder o bosibl y bydd hefyd angen atgyfnerthu cyfarpar ymhellach i fyny'r rhwydwaith mewn rhai achosion.

**Ffigur 1: Cysylltiad grid nodweddiadol ar gyfer cynhyrchydd trydan adnewyddadwy**



Mae nifer o safonau technegol ar waith er mwyn llywodraethu'r gofynion ar gyfer cysylltu â'r grid. Mae gan y safonau hyn sawl diben, gan gynnwys:

- sicrhau y bydd y cynhyrchydd trydan yn gallu gweithredu'n ddiogel ar y rhwydwaith, ac na fydd yn achosi unrhyw broblemau o ran diogelu'r rhwydwaith nac ansawdd ynni (megis lefel ac amledd foltedd), a

- diogelu'r cynhyrchydd trydan rhag unrhyw ddiffygion a all ddigwydd ar y rhwydwaith dosbarthu.

Mae'r prosesau a ddefnyddir i gysylltu systemau cynhyrchu corfforedig yn dibynnu ar faint y cynhyrchydd trydan, ac mae dwy set o Argymhellion Peirianeg (EREC) yn berthnasol; sef G83 a G59. I gael rhagor o fanylion am hyn a rhagor o wybodaeth am wneud cais am gysylltiad â'r grid, cyfeiriwch at y **Modiwl Cysylltu â'r Grid**.

Drwy gysylltu â'r grid, gellir allforio trydan. Mae angen Cytundeb Prynu Ynni (PPA), neu gytundeb 'offtake', gyda chyflenwr trydan trwyddedig er mwyn gallu gwerthu'r trydan, sef cytundeb rhwng cynhyrchydd a chyflenwr trydan (cyflenwr defnyddwyr trydan) i brynu a gwerthu'r trydan a gynhyrchir gan y cynhyrchydd. Gall ddiogelu cynhyrchydd annibynnol rhag risgiau sy'n gysylltiedig ag argaeledd ynni, cyfaint, hylifedd, pris, proffil, anghydbwysedd a newidiadau i'r gyfraith. Ceir amrywiaeth o gynhyrchion Cytundeb Prynu Ynni y gellir eu dosbarthu'n fras fel y nodir yn **Error! Reference source not found**. Tabl 1 : Cynhyrchion Cytundeb Prynu Ynni sydd ar gael i gynhyrchwyr trydan.

**Tabl 1 : Cynhyrchion Cytundeb Prynu Ynni sydd ar gael i gynhyrchwyr trydan**

Adeiledd	Crynodeb
<b>Cytundeb Tollau</b>	Telir ffi gytûn am drydan
<b>Pris Sefydlog/Isafswm Pris</b>	Cyflenwad trydan cytûn am bris sefydlog neu isafswm pris
<b>Llwybrau i'r Farchnad</b>	Prynir yr holl gyflenwadau am bris y farchnad (llai ffi fasnachu)
<b>Dull Masnachu</b>	Bydd darparwr y Cytundeb Prynu Ynni yn rheoli ac yn gwerthu'r ynni lle caiff prisiau eu rhagfantoli drwy ddyfodol contractio


Bydd y Contract yn rhoi ffynhonnell incwm i gynhyrchwyr trydan. Cytundeb i brynu a gwerthu trydan yw hwn, felly bydd cyfraddau a thelerau'r contract yn newid o un cyflenwr i'r llall. Mae'n arfer da negodi a ffonio nifer o wahanol gyflenwyr wrth geisio trefnu Cytundeb Prynu Ynni er mwyn sicrhau'r cyfraddau gorau posibl. Dylid nodi hefyd fod cytundeb o'r fath yn ofynnol i fenthycwyr roi benthyg yn ei erbyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gytundebau Prynu Ynni gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ac fe'i cynhwysir hefyd yn y **Feed in Tariff Module** sydd ar gael gan Local Energy Scotland (gweler 'Ragor o Wybodaeth').

Yn y farchnad drydan sydd ohoni yn y DU, cyfleustodau mawr sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'r trydan ac maent yn anelu at gyfateb eu proffiliau cynhyrchu i'r galw a ragwelir. Mae'r system yn darparu trydan cymharol rhad i ddefnyddwyr unigol a busnesau ac yn sicrhau system gytbwys sy'n cynnig cyflenwad dibynadwy. Caiff unrhyw ddiffygion neu ormoddedd o ran y trydan a gynhyrchir eu hategu neu eu gwerthu i'r farchnad gyfanwerthu er mwyn sicrhau bod y sefyllfa gyflenwi yn cyfateb i'r galw. Cyfraniad cynhyrchwyr adnewyddadwy i'r farchnad hon oedd 19% ar gyfer blwyddyn gyfan 2014<sup>1</sup>.

<sup>1</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/450298/DUKES\\_2015\\_Chapter\\_6.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/450298/DUKES_2015_Chapter_6.pdf)

Ffigur 2: Model busnes traddodiadol ar gyfer cyflenwi trydan (Ffynhonnell: gweler 'Rhagor o Wybodaeth')



Os nad yw'n gwerthu i gyflenwr trwyddedig drwy Gytundeb Prynu Ynni, gallai cynhyrchydd ynni bach gymryd rhan yn y farchnad drydan gyfanwerthu yn uniongyrchol, ond mae amrywiaeth o ffioedd o ran taliadau a thrwyddedau yn gysylltiedig â hyn a allai olygu nad yw'n gynnig masnachol deniadol. Byddai trefniant amgen yn cynnwys trefniadau masnachol uniongyrchol rhwng y cynhyrchydd ynni a'r defnyddiwr, gan felly osgoi rhai o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y cyflenwr, gan felly o bosibl alluogi i gynhyrchwyr ynni werthu trydan am bris uwch na chyfradd y farchnad. Nodir yr amrywiol opsiynau yn hyn o beth isod.

### Trefniadau masnachol amgen

Un opsiwn ar gyfer cynyddu refeniw'r prosiect yw ystyried trefniadau masnachol sy'n caniatáu i'r prosiect werthu trydan yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, a thrwy hynny sicrhau budd o incwm prisiau trydan defnyddwyr yn hytrach nag incwm prisiau trydan cyfanwerthu. Mae'r trefniadau amgen hyn yn cynnwys:

- Label Gwyn;
- 'Licence Lite';
- Cyflenwr o dan Eithriad Trwydded.

Dylid nodi bod Ofgem, rheoleiddiwr y farchnad trydan a nwy, wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr amrywiol fodelau busnes anhraddodiadol<sup>2</sup> sy'n dod i'r amlwg wrth i gynhyrchwyr ynni newydd ymuno â'r farchnad ynni.

<sup>2</sup> <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/non-traditional-business-models-supporting-transformative-change-energy-market>

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr atebion technegol a allai alluogi cynhyrchwyr ynni cymunedol i werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr, megis gwifrau preifat, ym **Modiwl Cysylltu â'r Grid y Pecyn Cymorth Ynni Lleol**.


### Label Gwyn

Model cyflenwr Label Gwyn yw'r opsiwn mwyaf cyffredin i gymunedau gyflenwi trydan i ddefnyddwyr lleol er mwyn cyflawni eu hamcanion eu hunain, megis lleihau allyriadau, cefnogi dulliau cynhyrchu adnewyddadwy lleol neu fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae'r cyflenwr Label Gwyn yn gweithio mewn partneriaeth â Chyflenwr Trwydded Trydydd Parti (TPLS) sy'n darparu gwasanaethau swyddfa gefn, gwasanaethau mesur ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â chodau'r diwydiant. Yn y cyfamser, mae'r cyflenwr Label Gwyn yn gweithredu o dan frand gwahanol, gan gynnig ei dariffau ei hun a phennu ei strategaeth farchnata a'i gwsmeriaid targed ei hun.

Mae llawer o wahanol fathau o gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol megis awdurdodau lleol, cymdeithasau budd i'r gymuned neu gymdeithasau tai sy'n ymgysylltu â Chyflenwr Trwydded Trydydd Parti â phortffolio cynhyrchu ynni adnewyddadwy uchel, megis OVO (Canolfan Ynni Cymunedol, gweler 'Rhagor o Wybodaeth') neu Good Energy, i ddod yn gyflenwr Label Gwyn. Byddai'r Cyflenwr Trwydded Trydydd Parti hyn yn ystyried prynu'r trydan a gynhyrchir gan y cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol o dan gytundebau prynu ynni teg. Gellir gweld enghraifft o hyn yn **Error! Reference source not found..**

**Ffigur 3: Model busnes Label Gwyn (Ffynhonnell: gweler 'Rhagor o Wybodaeth')**



Mae Tabl 2 yn cynnig dadansoddiad o fanteision ac anfanteision y model cyflenwyr Label Gwyn o gymharu â'r model busnes traddodiadol.

Tabl 2: Manteision ac anfanteision y model cyflenwyr Label Gwyn


Manteision	Anfanteision
<b>Yn cefnogi dulliau cynhyrchu ynni o dan berchenogaeth leol gan helpu cymunedau i gyflawni eu hamcanion lleol</b>	Mae cyflenwyr Label Gwyn yn agored i daliadau gan y Cyflenwr Trwydded Trydydd Parti felly nid oes ganddynt reolaeth lawn dros bris y trydan a gynhyrchir ganddynt.
<b>Costau sefydlu a rhedeg is i'r cynhyrchydd ynni yn hytrach na sefydlu fel Cyflenwr Trwyddedig oherwydd caiff rhwystrau technegol a rheoliadol eu trosglwyddo i'r Cyflenwr Trwydded Trydydd Parti</b>	Ni chaiff gwerth yr ynni ei wireddu'n llawn i'r gymuned (oherwydd caiff ei rannu gyda'r cyflenwr trwyddedig) a bydd llai o gyfleoedd o ran rheoli'r ochr galw (DSM) na'r cyfleoedd a fyddai'n gysylltiedig â modelau cyflenwi mwy uniongyrchol.
<b>Mae'r cyflenwr Label Gwyn yn gweithredu o dan ei frand ei hun, gan bennu ei strategaeth farchnata a'i dargedau ei hun, gyda'i dariffau ei hun</b>	

### 'Licence Lite'

Crëwyd 'Licence Lite' yn 2009 gan Lywodraeth y DU er mwyn caniatáu i gynhyrchwyr ynni bach a chymunedau ddod yn gyflenwyr trwyddedig heb fod angen iddynt gydymffurfio â rhwymedigaethau penodol o dan godau'r diwydiant. Er y bydd yn rhaid bodloni codau'r diwydiant o hyd, bydd cyflenwyr 'Licence Lite' yn creu partneriaeth gyda Chyflenwr Trwydded Trydydd Parti sy'n bodoli eisoes a fydd yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni'r codau. Gellir gweld enghraifft o'r trefniant hwn yn Ffigur 4. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant Label Gwyn gan y bydd yn ofynnol i'r cyflenwr 'Licence Lite' gydymffurfio â rhai o rwymedigaethau codau'r diwydiant.

Mae'r opsiwn trwydded hwn yn un o ymrwymadau'r llywodraeth i leihau'r rhwystrau i gymunedau lleol a gaiff eu cyfyngu gan y costau anghymesur sy'n gysylltiedig â dod yn gyflenwr trwyddedig a bodloni codau'r diwydiant sy'n deillio o hynny, sef Amod Trwydded Gwasanaeth 11.2.

Ffigur 4: Cynllun 'Licence Lite' (Ffynhonnell: gweler 'Rhagor o Wybodaeth')



Mae Tabl 3 yn cynnig dadansoddiad o fanteision ac anfanteision y model 'Licence Lite' o gymharu â'r model busnes traddodiadol.

Tabl 3: Manteision ac anfanteision y model 'Licence Lite'

Manteision	Anfanteision
<b>Gostyngiad mewn costau rheoliadol i gymunedau o gymharu â sefydlu fel cyflenwr trwyddedig</b>	Er y crëwyd y cynllun yn 2009, nid oes unrhyw enghreifftiau o hyd o gyflenwyr o dan y cynllun hwn
<b>Gall cymunedau ac awdurdodau lleol gymryd rheolaeth dros gynhyrchu a chyflenwi, gan werthu trydan yn uniongyrchol i ddefnyddwyr</b>	Rhaid i'r cyflenwr 'Licence Lite' ddod i gytundeb gyda chyflenwr trwydded trydydd parti (TPLS) a chodir tâl arno am y gwasanaeth cydbwysu nad yw'n gofrestredig ar hyn o bryd
	Er na fydd llawer o'r prif rwystrau rheoliadol yn berthnasol, mae costau yn gysylltiedig â gweithredu'r drwydded a darparu gwasanaeth i gwsmeriaid o hyd

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw astudiaethau achos nac enghreifftiau o'r model hwn. Awdurdod Llundain Fwyaf oedd yr awdurdod cyntaf i wneud cais am y cynllun hwn, ond bu oedi wrth ymgymryd â'r broses gan ei bod mor gymhleth. Dim ond i nifer fach iawn o gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy penodol y bydd yr opsiwn hwn yn berthnasol.

## Cyflenwr o dan Eithriad Trwydded

Mae angen trwydded ar unrhyw gynhyrchydd, dosbarthwr neu gyflenwr ynni sy'n awyddus i ymuno â'r farchnad drydan. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddyfarnu eithriad rhag y gofyniad i feddu ar drwydded cynhyrchu, cyflenwi neu ddsbarthu o dan y "Gorchymyn Eithrio Dosbarth" (Gorchymyn Trydan 2001 - Eithriadau Dosbarth rhag y Gofyniad am Drwydded).

Rhaid i gynhyrchwyr ynni cymunedol wneud cais am yr eithriad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni ddyfarnwyd unrhyw eithriad hyd yn hyn, gan fod angen cynnal dadansoddiad technegol a dadansoddiad rheoliadol ar eu cyfer gan Ofgem a Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu. Bu cymhlethdod y broses reoliadol a'r broses dechnegol yn rhwystr i geisiadau. Bydd cymhlethdod y system reoliadol yn golygu bod angen cyngor rheoliadol a deddfwriaethol arbenigol, ac mae hynny'n ddrud.

Crëwyd y Gorchymyn Eithrio Dosbarth er mwyn rhyddhau cynhyrchwyr ynni, dosbarthwyr a chyflenwyr yn yr achosion hynny lle roedd cost a chymhlethdod y rheoliadau yn atal datblygiad rhai technolegau a busnesau penodol:

- Cynhyrchwyr ynni bach sy'n awyddus i werthu eu hallbwn i gyflenwyr lleol;
- Cyflenwyr diwydiannol sy'n awyddus i werthu'r trydan gormodol i ddefnyddwyr masnachol neu ddomestig lleol neu adeiladau cyhoeddus, drwy rwydwaith dosbarthu;
- Gweithredwyr technolegau carbon isel sy'n awyddus i weithredu eu rhwydwaith dosbarthu eu hunain a chyflenwi trydan i ddefnyddwyr lleol.

Mae'r eithriad hwn yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr gwasgaredig werthu'r trydan gormodol i ddefnyddwyr lleol, heb orfod cydymffurfio â'r gofynion technegol uchel sy'n heriol yn ariannol sy'n gysylltiedig â Chyflenwr Trwyddedig. Mae'r eithriadau trwydded a gwmpesir gan Orchymyn Eithrio Dosbarth 2001 yn cynnwys:

- O dan eithriadau i gyflenwyr, cyflenwi hyd at 5MW drwy gydol y rhwydwaith dosbarthu cyhoeddus (gan sicrhau nad oes mwy na 2.5MW ohono i ddefnyddwyr domestig);
- O dan eithriadau dosbarthu, dosbarthu trydan ar gyfer cyflenwad nad yw'n fwy na 2.5MW, gydag uchafswm o 1MW ohono i ddefnyddwyr domestig.

Mae Tabl 4 yn cynnig dadansoddiad o fanteision ac anfanteision y model Cyflenwr o dan Eithriad Trwydded o gymharu â'r model busnes traddodiadol.

Tabl 4: Manteision ac anfanteision y model Cyflenwr o dan Eithriad Trwydded

Manteision	Anfanteision
<b>Cyfle i gyflenwyr cymunedol werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr</b>	Dim enghraifft o eithriad yn cael ei gynnig
<b>Costau is i gyflenwyr cymunedol</b>	Cymhlethdod uchel y gyfundrefn reoliadol a thechnegol
<b>Arbedion posibl i ddefnyddwyr gan fod costau is i gyflenwyr cymunedol</b>	Amharoddrwydd rhai rhanddeiliaid i ymgysylltu â chyflenwyr sydd wedi'u heithrio rhag cael trwydded
	Ansicrwydd o ran taliadau Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ar gyfer atgyfnerthu neu ehangu'r rhwydwaith
	Ansicrwydd o ran taliadau Cyflenwyr Trwydded Trydydd Parti am rai gwasanaethau swyddfa gefn
	Mae angen cyngor rheoliadol arbenigol



## Gwybodaeth Ychwanegol

I gael rhagor o wybodaeth am gysylltiadau nodweddiadol â'r rhwydwaith, gweler y **Modiwl Cysylltu â'r Grid**.

I gael rhagor o wybodaeth am Gytundebau Prynu Ynni gan DECC:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/263919/Baring\\_a\\_report\\_on\\_PPA\\_market\\_liquidity\\_July\\_2013.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/263919/Baring_a_report_on_PPA_market_liquidity_July_2013.pdf)

I gael rhagor o wybodaeth am Gytundebau Prynu Ynni gan Local Energy Scotland:

<http://www.localenergyscotland.org/funding-resources/resources-advice/cares-toolkit/finance-matters/>

I gael rhagor o wybodaeth am gynigion ynni cymunedol OVO:

[http://www.ovoenergy.com/uploadedFiles/Content/Different\\_Approach/Community\\_Energy/OVO%20Communities%20Brochure.pdf](http://www.ovoenergy.com/uploadedFiles/Content/Different_Approach/Community_Energy/OVO%20Communities%20Brochure.pdf)

I gael rhagor o wybodaeth am gynigion Open Utility / Good Energy ar gyfer Label Gwyn:

<https://piclo.uk/how-it-works>

Ffigur 2 a Ffigur 3:

[https://research.ncl.ac.uk/ibuild/outputs/local\\_electricity\\_supply\\_report\\_WEB.pdf](https://research.ncl.ac.uk/ibuild/outputs/local_electricity_supply_report_WEB.pdf)

Ffigur 4:

[https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/docs/2015/04/482\\_an\\_introduction\\_to\\_licence\\_li\\_te\\_factsheet\\_web\\_0.pdf](https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/docs/2015/04/482_an_introduction_to_licence_li_te_factsheet_web_0.pdf)

Comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Lluniwyd gan Ricardo Energy & Environment gan adeiladu ar waith a gwblhawyd gan Gynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban

© Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban 2009, 2010, 2011, 2012

Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Chwefror 2016.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

energy | ymddiriedolaeth  
saving | arbed  
trust | ynni

